

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 10/06/2019 / MINUTES
OF MEETING HELD ON 10/06/2019**

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs E. Jones, Is-gadeirydd Mrs S Jones, Mr R G Parry, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams.	PRESENT: Chairman Mrs E. Jones, Vice-chairman Mrs S Jones, Mr R G Parry, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams.
1. Croeso ac ymddiheuriadau.	1. Welcome and apologies
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriad am ei absenoldeb, o ganlyniad i waeledd, oddi wrth Mr G Williams.	The Chairman welcomed all to the meeting. Apology for his absence due to illness was received from Mr G Williams.
2. Datganiadau Diddordeb.	2. Declarations of Interest.
Dim.	None.
3. Cadarnhau cofnodion 013/05/2019	3. Ratify minutes 013/05/2019
Derbyniwyd a chadarnhawyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13/5/2019. Mrs C Parry yn cynnig, Mrs A E Williams yn eilio.	The minutes of the meeting held on the 13/5/2019 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs C Parry, seconded by Mrs A E Williams.
4. Materion yn codi:	4. Matters arising:
(a) Arwyddbost at yr Eglwys. Cadarnhaodd Cynghorydd R G Parry fod y Cyngor Sir wedi cytuno i osod 1 arwyddbost yn unig, a hwnnw'n cyfeirio at yr Eglwys o'r A5.	(a) Signpost for the Church. Councillor R G Parry confirmed that the County Council had agreed to supply one signpost only, showing directions to the Church from the A5.
(b) Japanese Knotweed ar lwybr cyhoeddus Ty'n Corniog. Y Cynghorydd R G Parry wedi derbyn cadarnhad oddi wrth y Cyngor Sir eu bod wedi ymweld â'r llwybr. Y mater i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.	(b) Japanese Knotweed on Ty'n Corniog public footpath. Councillor R G Parry had received confirmation from the County Council that they had visited the footpath. Matter to be discussed further at the next meeting.
(c) Baw Ci. Y Cynghorydd R G Parry wedi mynd a'r neges ymlaen at y Cyngor Sir. Y Cadeirydd a'r Clerc yn cadarnhau eu bod wedi gweld van y Cyngor Sir yn glanhau baw ci o gwmpas y pentref yr wythnos ddiwethaf.	(c) Dog fouling. Councillor R G Parry had passed the message on to the County Council. The Chairman and the Clerk confirmed that they had seen the County Council van clearing dog mess around the village last week.
(d) Hyfforddiant a Datblygiad. Ar ôl trafod y mater ymhellach, ac wedi derbyn gwybodaeth am gynllun gan Un Llais Cymru i gyflwyno hyfforddiant ar lein, teimlwyd bod angen mwy o amser i ystyried drafftio cynllun hyfforddiant. Penderfynwyd ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.	(d) Training and Development. Following discussion on the matter, and having received information about One Voice Wales' plan to provide training on-line, it was felt that more time was needed to draw out a training plan. It was decided to discuss the matter further at the next meeting.
5. Gohebiaeth:	5. Correspondence:
(i) Un Llais Cymru:	(i) One Voice Wales:

(a) Dyddiadau Hyfforddiant ar gyfer mis Mehefin. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(a) Training dates for June. Discussed and accepted for information.
(b) Cynhadledd Arfer Arloesol. 11/7/2019 yn Hafod a Hendre, Maes y Sioe Amaethyddol. Trafodwyd ac oherwydd pellter lleoliad y gynhadledd nid oedd neb am fynd i'r gynhadledd.	(b) Innovative Practice Conference. 10/7/2019 at Hafod a Hendre, Royal Welsh Showground. Discussed, and due to the distance to the location of the Conference, no-one able to attend the conference.
(ii) Cyngor Sir Ynys Môn:	(ii) Isle of Anglesey County Council:
(a) Rhybudd Cyhoeddus – Rheoliadau Adolygu Rhanbarthau Pleidleisio a Lleoedd Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	(a) Public Notice. The Review of Polling Districts and Polling Places (Parliamentary Elections) Regulations 2006. Discussed and accepted for information.
(iii) Smith of Derby. Yn dilyn gwaith cynnal a chadw ar y cloc, y cwmni wedi canfod bod cloc y cloc mewn cyflwr gwael iawn. Y gost o'i drin fyddai £2394.00 + TAW. Trafodwyd y mater, a phenderfynwyd bod rhaid derbyn argymhelliad y cwmni. Y Clerc i gysylltu â Smith of Derby i'w cynghori i gario ymlaen a'r gwaith, ac i anfon blaendal o £861.94 i Smith of Derby..	(iii) Smith of Derby. Following routine maintenance on the clock, the company had found the bell to be in extremely poor condition. Cost of repair would be £2394.00 + VAT. Matter discussed and it was decided to accept the company's recommendations. The Clerk to inform Smith of Derby and to advise them to carry out the work.
(iv) Corff Gwarchod Iechyd Gogledd Cymru. Datganiad i'r Wasg. Derbyn er gwybodaeth.	(iv) North Wales Health Watchdog. News Release. For information.
(v) Cronfa Mynwent Capel Jerusalem. Rhestr o roddion. Derbyn er gwybodaeth.	(v) Jerusalem Chapel Cemetery Fund. List of donations received. For information.
(vi) Cais am gyfraniad: Bobath Cymru. Penderfynu peidio cyfrannu.	(vi) Request for donation: Bobath Wales Decided not to contribute.
6. Materion ariannol	6. Financial matters
(a) Ad-daliad o £530.17 o'r Cyngor Sir at gost cynnal a chadw'r llwybrau cyhoeddus.	(a) Re-payment of £530.17 from County Council towards cost of maintaining the public footpaths. First praecept received £2833.34.
(b) Cyflog y Clerc yn ddyledus £500.00 ynghyd a £125.00 i HMRC, PAYE ar gyflog y Clerc. Esboniodd y Clerc bod gordaliad wedi'i wneud HMRC yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf o ganlyniad i'r banc roi gwybodaeth anghywir Iddi	(b) Clerk's salary of £500.00 due together with £125.00 to HMRC, PAYE on Clerk's salary. The Clerk explained that due to misinformation given to her by the bank regarding another cheque to be stopped, an overpayment had been

<p>ynglŷn â siec arall i'w stopio, Roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyfrifydd ynglŷn â hyn ac wedi derbyn y cyngor i beidio anfon taliad i HMRC y chwarter hwn, ond i gofnodi gordaliad o £125.00 i HMRC ar ochr Taliadau yn y llyfr Derbyniadau a Thaliadau. Roedd hyn yn dderbyniol gan y Cyngorwyr. Caniatâd i dalu Cyflog y Clerc.</p>	<p>made to HMRC in the last financial year. The Clerk had been in touch with the Council's Accountant and he had advised not to forward a payment to HMRC this quarter, but to record an overpayment of £125.00 to HMRC on the Payments side of the Receipts and Payments book. This was acceptable to the Councillors. Permission to pay the Clerk's salary.</p>
<p>(c) Adroddiad Archwiliad Mewnol. Rhoddodd y Clerc gopi o adroddiad yr Archwilydd Mewnol i'r Cyngorwyr. Trafodwyd yr adroddiad, a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith da ar gadw'r cyfrifon a hynny wedi arwain at adroddiad da. Arwyddodd y Cadeirydd Ffurflen Flynyddol y Cyngor yn barod i'r Clerc ei hanfon ymlaen at BDO yr Archwilwyr Allanol erbyn 1 Gorffennaf 2019.</p>	<p>(c) Internal Audit Report. A copy of the Internal Auditor's report was given to the Councillors. The report was discussed, and the Clerk was thanked for her work at maintaining the accounts which had ensured a good report. The Chairman signed the Annual Return in readiness for the Clerk to forward it on to BDO the External Auditors by the 1st July 2019.</p>
<p>(d) Anfoneb £75.00 oddi wrth Mr Alun Foulkes, yr Archwilydd Mewnol am ei waith Archwilio cyfrifon 2018/19. Caniatâd I dalu'r anfoneb.</p>	<p>(d) Invoice £75.00 from Mr Alun Foulkes, Internal Auditor for carrying out audit of 2018/19 accounts. Permission given to pay the invoice.</p>
<p>(e) Adolygiad ariannol chwarterol. Derbyniwyd adroddiadau'r Clerc sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.</p>	<p>(e) Quarterly financial review. The Clerk's reports, which confirm that there is sufficient income and funds to maintain costs till the end of the financial year, were accepted.</p>
<p>7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y Cadeirydd.</p> <p>(a) Derbyniwyd adroddiad ar gyflwr ac archwiliadau a wnaed ar y Cae Chwarae Plant oddi wrth Mr Brian Veevers, Cadeirydd Pwyllgor Maes Chwarae Plant. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.</p>	<p>7. Any other matter at the Chairman's discretion.</p> <p>(a) Report on condition of and checks made on the Children's Playing Field was received from Mr Brian Veevers, Chairman of the Playing Field Committee. Discussed and accepted for information</p>
<p>(b) Mynegodd y Clerc ei bwriad i ymdeol ar ddiwedd fis Rhagfyr 2019 i'r Cyngor.. Er mawr siomedigaeth, penderfynwyd darparu amserlen ar gyfer hysbysebu'r swydd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.</p>	<p>(c) The Clerk notified the Council of her intention to retire at the end of December 2019. With regret, the Council decided to draw up a timetable for advertising the post at the next Council meeting.</p>
<p>8. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p>	<p>8. Fix a date for the next meeting.</p>
<p>Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun, 8 Gorffennaf, 2019 am 7pm yn Neuadd yr Henoed..</p>	<p>The next meeting will be held on Monday 8 July 2019 at the Pensioners' Hall at 7pm</p>
<p>Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm.</p>	<p>The meeting concluded at 8.15pm.</p>